| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 25 Ionawr 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Feeley / Karen Evans |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Karen Evans, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant / Julie Moss, y Prif Reolwr |
| **Teitl:** | **Adolygiad Ymarfer Plant** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'n darparu diweddariad ar y gwaith a wnaed mewn ymateb i'r adroddiad a rannwyd ym mis Gorffennaf 2015, a roddodd fanylion i'r aelodau am yr Adolygiad Ymarfer Plant mewn perthynas â marwolaeth drasig plentyn yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Yn y cyfarfod fis Gorffennaf 2015, esboniodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'n bwysig i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant wedi cael ei weithredu'n llawn. Cytunwyd i gyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor yn dilyn cyfnod o ddeuddeng mis.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn adolygu'r cynnydd ac yn penderfynu a oes angen rhagor o wybodaeth a diweddariadau ar gynnydd yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal Adolygiadau Ymarfer Plant yn dilyn marwolaeth plentyn mewn amgylchiadau lle mae arwydd y gallai camdriniaeth neu esgeulustod fod wedi digwydd.

Yn yr achos hwn, honnwyd i farwolaeth y plentyn ddigwydd o ganlyniad i'w riant orwedd drosto. Roedd y plentyn wedi cael ei gynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant Conwy a Sir Ddinbych. Diben yr adolygiad oedd darganfod a oedd gwersi i'w dysgu am y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i ddiogelu plant, amlygu'r gwersi hynny a gwella ymarfer.

Mae Adroddiad yr Adolygiad Estynedig wedi'i amgáu er gwybodaeth (**Atodiad 1**). Mae'r Cynllun Gweithredu a baratowyd yn dilyn cwblhau'r adroddiad wedi'i amgáu er mwyn cyfeirio ato. **(Atodiad 2).**

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar wefan Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Gogledd Cymru tan 25 Ebrill 2016.

Mae'r Cynllun Gweithredu terfynol wedi'i amgáu er gwybodaeth a thrafodaeth (**Atodiad 3**). Dengys hwn y cynnydd a wnaed gan yr holl asiantaethau wrth fynd i'r afael â'r camau gweithredu a nodwyd. Mae Julie Moss, y Prif Reolwr, hefyd wedi gwneud cyflwyniadau i'r Grŵp Darparu Lleol a'r Grŵp Rhanbarthol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae sicrhau y cedwir plant yn ddiogel rhag niwed yn un o'r blaenoriaethau corfforaethol allweddol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gost uniongyrchol i gyllidebau gwasanaethau.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les cyflawn oddi ar y wefan <http://wellbeing.denbighshire.gov.uk/>, a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Nid oes unrhyw oblygiadau o ran Effaith ar Gydraddoldeb o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Nid oedd angen ymgynghori â'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer yr adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Canolbwynt yr adroddiad hwn yw sut y dysgwyd gwersi o ddigwyddiad trasig er mwyn dylanwadu ar reoli risgiau a lleihau risgiau yn effeithiol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.